Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333 / 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

CÔR O'R UDA YN HELPU AMBIWLANS AWYR CYMRU - CAERNARFON 20.5.18

Nos Sul 20 Mai am 7.00pm bydd côr enwog yr *University of Northern Iowa Men's Glee Club* yn canu yn Eglwys Fair Caernarfon fel rhan o daith i Gymru ac Iwerddon.

Gyda chefnogaeth Côr Meibion Caernarfon, hwn fydd trydydd perfformiad y cerddorion ifanc yng Nghymru, yn dilyn cyngherddau yn Abergele ar 18 Mai gyda Chôr Cytgan Clwyd a Llandudno ar 19 Mai gyda Chôr Meibion Colwyn.

Ni fydd tâl mynediad i gyngerdd Caernarfon ond gwneir casgliad at Ambiwlans Awyr Cymru. Bydd mynediad drwy docyn, sydd ar gael ymlaen llaw oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru, aelodau Côr Meibion Caernarfon neu siop lyfrau Palas Print Caernarfon. Bydd unrhyw docynnau sbâr ar gael wrth y drws cyn y cyngerdd.

Mae aelodau'r côr meibion yn astudio ym Mhrifysgol Gogledd Iowa yn Cedar Falls Iowa ym *Mid West* yr Unol Daleithiau - prifysgol fawr gyda tua 12,000 o fyfyrwyr a 800 o staff.

Mae 110 o aelodau yng nghôr llawn y Glee Club a thros 60 ohonynt yn canu yng Nghaernarfon. Ar gampws y brifysgol mae ganddynt neuadd gyngerdd hardd i berfformio ynddi a phob tocyn yn gwerthu ar gyfer nosweithiau poblogaidd fel eu cyngerdd Nadolig.

Dros y blynyddoedd bu'r Glee Club ar 19 o deithiau tramor i wledydd yn cynnwys Awstria, Gweriniaeth Tsiec, Lloegr, yr Iseldiroedd, yr Almaen, Gwlad yr Iâ, Iwerddon, yr Eidal, Norwy, Gwlad Pwyl, Sbaen, y Swistir a Chymru.

Eu Cyfarwyddwr Cerdd yw Dr John Wiles, Athro Cysylltiol Arwain Corau ym Mhrifysgol Gogledd Iowa. Meddai, "Credwn yng ngrym cerddoriaeth i ddyrchafu, ysbrydoli a helpu i wneud y byd yn well lle i fyw."

Dywedodd cadeirydd newydd Côr Meibion Caernarfon, Alwynne T Jones, "Mae'r côr ardderchog hwn yn cynhyrchu sain grymus a chyfoethog. Ystyriwn hi'n fraint eu bod wedi dewis Caernarfon fel rhan o'u taith yng Nghymru."

Ychwanegodd, "Mae Côr Meibion Caernarfon hefyd yn cymryd rhan yn y cyngerdd a byddwn yn cyd-ganu'r emyn Cwm Rhondda. Mae'r côr Americanaidd wrthi'n brysur yn dysgu geiriau Cymraeg y pennill cyntaf."

DIWEDD 05/05/18

Nodiadau cefndir a lluniau:
Gwefan UNI Glee Club: http://www.unigleeclub.com
Enghraifft o'r côr yn canu: https://vimeo.com/148177252
University of Northern Iowa
https://en.wikipedia.org/wiki/University_of_Northern_Iowa
Gwefan Côr Meibion Caernarfon www.cormeibioncaernarfon.org

ENGLISH VERSION ON NEXT PAGE

Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333
/ 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

USA CHOIR SUPPORT WALES AIR AMBULANCE – CAERNARFON 20.5.2018

On Sunday evening 20 May, at 7.00pm the renowned University of Northern Iowa Men's Glee Club, USA, will sing in St Mary's Church Caernarfon as part of their tour of Britain and Ireland.

Hosted by Côr Meibion Caernarfon, this will be one of three performances in Wales following concerts at Abergele on 18 May with Côr Cytgan Clwyd and Llandudno on 19 May with Colwyn Bay Male Voice Choir.

There will be no admission charge for the Caernarfon concert, but a collection will be made in support of the Wales Air Ambulance. Admission will be by ticket which can be obtained in advance from Wales Air Ambulance, members of Côr Meibion Caernarfon or Palas Print bookshop in Palace Street Caernarfon. Any remaining tickets will be available at the door before the concert.

The Glee Club members study at the University of Northern Iowa in Cedar Falls, Iowa, in America's Mid West which has around 12,000 students and 800 staff.

The full choir has 110 singers. Over 60 will be singing in Caernarfon. They regularly perform at a huge concert hall on the university campus which they fill to capacity for events such as their much anticipated Christmas concert.

Over the years, the choir has been on 19 international tours, including Austria, the Czech Republic, England, Holland, Germany, Iceland, Ireland, Italy, Norway, Poland, Spain, Switzerland and Wales.

The choir's Director of Music is Dr. John Wiles, Associate Professor of Choral Conducting at the University of Northern Iowa. He says: "We believe in the power of music to lift up, inspire and help make the world a better place".

Côr Meibion Caernarfon's newly elected chair Alwynne T Jones says, "This choir of young musicians produces an amazing sound. We are honoured that they have chosen Caernarfon as part of their tour of Wales.

He added; "Côr Meibion Caernarfon will also take part. We plan to sing Cwm Rhondda together – they are busily learning the Welsh words of the first verse."

ENDS 05/05/18

Background notes and photos:
UNI Glee Club website: http://www.unigleeclub.com
Example of choir singing: https://vimeo.com/148177252
University of Northern Iowa
https://en.wikipedia.org/wiki/University_of_Northern_Iowa
Côr Meibion Caernarfon website www.cormeibioncaernarfon.org

CYMRAEG AR Y DUDALEN FLAENOROL

Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333 / 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

Mae rhaglen y daith yn cynnwys / The tour repertoire includes:

- Ascendit Deus, Jacob Handl (1550-1591)
- wüsst' ich doch den Weg zurück, Johannes Brahms (1833-1897), arr. James McCullough
- Brothers, Sing On!, Edvard Grieg (1843-1907)
- Laudamus, Daniel Protheroe (1866-1934)
- Epitaph of John Jayberd of Diss, Ralph Vaughan Williams (1872-1958)
- We Shall Walk Through the Valley in Peace, William Appling (1872-2008)
- Sacramento, arr. Archibald T. Davison (1883-1961)
- Shenandoah, arr. Marshall Bartholomew (1885-1978)
- Down in the Valley, George Mead (1902-1996)
- Ave Maria, Franz Biebl (1906-2001)

CYFARWYDDWR / GLEE CLUB DIRECTOR: DR JOHN LEN WILES:

UNIVERSITY OF NORTHERN IOWA
VARSITY MEN'S GLEE CLUB

University of Northern Iowa

Datganiad i'r Wasg
Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333 / 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •